Os oes unrhyw un yn fodlon helpu efo'r gwaith o agor y capel ar fore Sul, rhowch wybod i un o swyddogion Ebeneser neu i'r Gweinidog os gwelwch yn dda.

Yn ôl y patrwm presennol yr oedfaon, mae angen arbennig am help i agor y festri ar ddau fore Sul o bob mis.

Cleifion

Os gwyddoch am unrhyw un o aelodau eglwysi'r Ofalaeth sydd yn yr ysbyty neu heb fod yn dda, a wnewch chi roi gwybod i ni os gwelwch yn dda. Byddwn yn falch o gael gwybod mor fuan â phosibl.

Diolch yn fawr iawn wrth gwrs i bawb sy'n ein helpu yn hyn o beth. Mae'n help mawr cael gwybod pwy sydd ym mha ysbyty ar unrhyw amser.

Cyhoeddiadau

GOFALAETH

Nos Fercher, Chwefror 17: Pwyllgor yr Ofalaeth am 7.00 o'r gloch yn festri Carmel, Llanllechid.

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Chwefror 21: Gwasanaethir yn y ddwy oedfa, am 10.00 a 5.00 o'r gloch, gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener-Dydd Sul, Chwefror 19-21: Cwrs Ieuenctid yng Ngholeg y Bala.

Dydd Sul, Chwefror 21: Gwasanaethir am 10.00 gan y Parchg Cath Williams, Caernarfon ac am 5.00 o'r gloch gan Parchg Geraint Roberts, Porthaethwy. Ni chynhelir Ysgol Sul oherwydd gwyliau hanner tymor.

REHOBOTH

Dydd Sul, Chwefror 21: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Chwefror 21: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones, Bethel, yn y capel, gobeithio, ond ceir cadarnhad cyn hynny.

CARMEL

Nos Wener, Chwefror 19: Dwylo Prysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 21: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg John Lewis Jones.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Chwefror 19: Ni fydd y Cyfarfod Gweddi yn cael ei gynnal yr wythnos hon.

Y mis nesaf - Deiniolen

Chwefror 14
2.00 p.m. - Mr Huw Fôn Roberts

Chwefror 21
10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Chwefror 28
4.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Y mis nesaf - Llanberis

Chwefror 14
10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oe*d*fa MOLI

Chwefror 21
10.00 a.m. - Y Parchg Cath Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

Chwefror 28
10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 670: Dydd Sul, 14 Chwefror, 2016

BEIBL BYW

Hawdd ei ddarllen

Bwriad trefnwyr ymgyrch 'Beibl Byw' yw annog pobl Cymru, ac yn arbennig Gristnogion Cymru, i ddarllen mwy ar Y Beibl eleni. Tair elusen, Gobaith i Gymru, Cyngor Ysgolion Sul Cymru a Chymdeithas Y Beibl sydd y tu cefn i'r ymgyrch. Cefnogwyd yr ymgyrch gan y prif enwadau, ac fe'i hysgogwyd gan gyhoeddi **beibl.net** y llynedd.

Nid tasg hawdd y mae trefnwyr 'Beibl Byw' wedi ei gosod iddynt eu hunain. Aeth *Y Beibl* yn llyfr anghyfarwydd i genedlaethau o bobl Cymru. Mae'n hel llwch ar silff lyfrau ar aml i aelwyd, ac yn ail digon gwan i'r llyfr emynau yng ngolwg llawer o gredinwyr. Mae yna waith mawr i'w wneud i berswadio pobl i ddechrau ei ddarllen. Ond trwy ras a chymorth Duw, gobeithio y gwelwn lawer yn agor ei gloriau er mwyn rhoi cynnig ar wneud hynny.

Ond er mor anodd y dasg, y cysur sydd gennym yw mai annog pobl i wneud peth syml iawn ydym: dim ond darllen. Am y tro, does dim sôn am drafod nac egluro na chymhwyso; dim ond darllen. A chan fod gennym bellach dri chyfieithiad Cymraeg fe ddylai fod yn haws nag erioed i ni ddarllen *Y Beibl.* Gall y rhan fwyaf ohonom ddarllen, ac fe ddarllenwn rywbeth bob dydd, boed bapur newydd, neu lyfr, neu dudalen o'r We neu hyd yn oed *Gronyn* ! Does neb yn gofyn i ni wneud rhywbeth rhy anodd; dim ond darllen *Y Beibl*.

Ac eto, mor rhwydd yw cymhlethu pethau trwy awgrymu y dylid darllen *Y Beibl* mewn rhyw ffordd arbennig. Clywais sawl un yr wythnos ddiwethaf yn mynnu fod rhaid darllen *Y Beibl* gyda gofal, a hynny yng ngoleuni'r oes bresennol hon, rhag i ni gael ein caethiwo gan ddogmâu a chredoau o ryw oes a aeth heibio. Mae'r siarad hwn yn fy mlino am ddau reswm.

Yn gyntaf, mae'r holl ladd ar gredo a dogma'n wadiad o'r Ffydd Gristnogol, ac yn ddiystyr ac afresymol. Y mae i'r Ffydd hon ei dogmâu, ei chredoau, ei dysgeidiaeth a'i hathrawiaethau am Dduw, am Iesu, ac am bob math o bethau. Datguddio'r gwirioneddau hynny yw un o brif bwrpasau'r Beibl. Mae'n amhosibl i neb ddarllen y llyfr hwn heb gael ei gyflwyno i'r corff o ddogmâu a chredoau sydd ynddo. Fedrwch chi ddim darllen cylchgrawn coginio heb ddysgu rhywbeth am fwyd! A fedrwch chi ddim darllen *Y Beibl* heb ddysgu ffeithiau am Dduw.

Ac yn ail, peth peryglus yw dweud fod rhaid darllen *Y Beibl* 'yng ngoleuni ein hoes ni' gan fod hynny'n awgrymu y gallwn wrthod ei neges os yw'r neges honno'n annerbyniol i'n hoes ni, neu'n groes i safonau ein hoes ni. Pa werth sydd i'r llyfr os cawn wrthod unrhyw beth na all ein hoes ni ei dderbyn? Rheitiach o lawer yw darllen yr oes bresennol yng ngoleuni'r Beibl, gan adael i'r llyfr ein cysuro a'n cywiro, ein dysgu a'n dwysbigo, ein bywhau a'n bendithio â'i oleuni oesol. Darllen, felly, gan adael i'r llyfr siarad â ni.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Ateb fi pan alwaf, O Dduw fy nghyf-iawnder! Pan oeddwn mewn cyfyngder, gwaredaist fi; bydd drugarog wrthyf, a gwrando fy ngweddi' (Salm 4:1).

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog, a bydd oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch. Nid oes Ysgol Sul heddiw.

Gwasanaethir yn yr oedfa yn Neiniolen am 2.00 o'r gloch gan Mr Huw Fôn Roberts, Brynrefail.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

Gwasanaethir yn Nhalybont (yn Ysgoldy Maesygroes) am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Diolch i bawb am eu gwasanaeth ym mhob un o'r eglwysi ystod y dydd.

Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau hefyd at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhelir Pwyllgor Yr Ofalaeth am 7.00 o'r gloch nos Fercher yr wythnos hon, Chwefror 17.

Cynhelir y cyfarfod y tro hwn yn festri Carmel, Llanllechid.

Trafodir materion ariannol yn ymwneud â'r Ofalaeth.

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch nos Wener. Diolch i Aled Williams am helpu Andrew yn y cyfarfod y tro hwn.

Cwrs Ieuenctid

Bydd rhai o aelodau CIC Llanberis yn mynd i'r Cwrs Ieuenctid yng Ngholeg y Bala bnawn Gwener nesaf.

Cynhelir y Cwrs o nos Wener, Chwefror 19 hyd amser cinio dydd Sul, Chwefror 21. Bydd y bws yn cychwyn o Lanberis am 1.30 o'r gloch.

Os oes rhywun arall eisiau mynd ar y cwrs rhowch wybod i'r Gweinidog neu i Andrew Settatree erbyn canol yr wythnos nesaf yma.

Cymdeithas Llanberis

Cafwyd cwis yng ngofal y Gweinidog yn y Gymdeithas Undebol yn Llanberis nos Fawrth, Chwefror 9. Diolch i bawb am gymryd rhan.

Y mis nesaf cynhelir Swper Blynyddol y Gymdeithas yng Ngwesty'r Fictoria, nos Fawrth, Mawrth 8. Trefnir y swper gan Eifion a Gwyneth Roberts, Swn-yr-afon. Mae bwydlen ar gael, a gofynnir i bawb ohonoch sydd am ddod i'r swper roi gwybod iddynt mor fuan â phosibl eu bod yn dod a beth ydych eisiau i'w fwyta. Rhif ffôn Eifion a Gwyneth yw **870740.**

Cynllun Efe

Mae Cynllun Efe wedi cynnal Gweithiwr Ieuenctid Crstnogol yn nalgylch papur bro *Eco'r Wyddfa* ers mis hydref 2008. Mae'r enw 'Efe', os cofiwch, yn egluro diben a dalgylch yr elusen, sef **E**fengyl i **F**ro'r **E**co.

Caiff Apêl Ariannol Flynyddol Efe ei gwneud yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth. Daeth yn amser felly i gyflwyno'r Apêl unwaith eto.

Fel y gwyddoch o bosibl o'r cyfeiriadau a wnaed yn Gronyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr ydym yn cydweithio erbyn hyn â Trobwynt, elusen debyg i ni yn Llŷn ac Eifionydd, a byddwn yn rhannu amser ein swyddog ieuenctid, Andrew Settatree, â Trobwynt am dair blynedd.

Bydd Trobwynt yn cyfrannu hanner y gost o gynnal y swydd dros y cyfnod hwnnw. Mae hynny'n help mawr i Gynllun Efe, wrth reswm. Ond nid yw'n golygu nad oes angen i ni ddal i wneud ymdrech i godi arian i gynnal y gwaith.

Gan fod Efe erbyn hyn yn derbyn llai o lawer o arian oddi wrth yr enwadau nag a gafwyd yn ystod blynyddoedd cyntaf y gwaith yr ydym yn dibynnu fwy a mwy ar gyfraniadau unigolion ac eglwysi lleol er mwyn cynnal y genhadaeth hon.

Gofynnwn eto, felly, i unrhyw un sy'n gallu gwneud hynny i ystyried cefnogi'r gwaith yn ariannol er mwyn sicrhau fod gennym ddigon o arian i gynnal y swydd dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r cynllun **'Un o Fil'** ac **'Un o Gant'** yn parhau gennym fel ffyrdd posibl o gefnogi'r gwaith. Mae '**Un o Fil'** yn anelu at gael 1,000 o bobl i gyfrannu £20 y flwyddyn; a'r cynllun **'Un o Gant'** yn anelu at gael 100 o bobl i gyfrannu £100. Gwahoddwn aelodau'r eglwysi lleol i fod yn 'Un o Fil' neu yn 'Un o Gant'.

Cafwyd cefnogaeth hael gan lawer, a gwerthfawrogwn hynny'n fawr iawn. Mae rhai wedi ymrwymo i gyfrannu yn fisol ers blwyddyn neu ddwy, ac eraill yn ymateb i'r Apêl Flynyddol. Gellir cyfrannu unrhyw adeg o'r flwyddyn wrth gwrs, ond mae'r Apêl Flynyddol yn gyfle arbennig i annog ein cefnogwyr.

Os medrwch gyfrannu unrhyw swm, neu os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am waith Efe, cysylltwch â'r Gweinidog. Mae sieciau i'w gwneud yn daladwy i 'Cynllun Efe'.

Ebeneser

Fel y nodwyd yn *Gronyn* y Sul diwethaf, bydd Mr Jackie Parry a Mr Idris Parry y rhoi'r gorau i'r gwaith o agor a chau drysau Ebeneser ddiwedd y mis hwn wedi oddeutu tair mlynedd ar ddeg o wasanaeth gwerthfawr iawn. Buont yn gofalu am gadw'r tir o flaen y festri yn daclus hefyd gan dorri'r gwawir ac ati.

Gwerthfawrogwn yn fawr iawn yr holl waith a wnaeth y ddau dros y cyfnod hwn. Mae wedi bod o gymorth mawr i waith yr eglwys. Diolch yn fawr iawn i'r ddau am eu holl waith.